# Arolwg Cenedlaethol o'r Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion

## Mae Eich Llais Chi'n Bwysig!

### Hydref 2016

Mae'r timau sy'n darparu gwasanaeth arennau y GIG ledled y wlad yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr eu bod yn gofalu amdanoch chi yn y modd gorau bosibl.

I sicrhau bod hyn yn digwydd a bod gofal arennau yn gwella drwy'r amser mae'n bwysig eich bod yn cael dweud eich dweud am eich profiadau gofal. Trwy wrando arnoch chi y byddwn ni'n gallu newid pethau a gwella gwasanaethau i bobl. Mae eich barn chi yn bwysig iawn i ni.
Eleni am y tro cyntaf, mae pob uned arennau wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol a elwir y Mesur Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion - neu PREM, yn gryno - a'r gobaith yw y bydd cymaint o bobl â phosibl yn cymryd rhan. Treialwyd y PREM yn ystod 2016 mewn Unedau Arennau yn Lloegr. Bydd eich Uned Arennau chi, a rhai eraill yng Nghymru, yn cymryd rhan yn y PREM yn rhan o broses ddilysu a phrawf holiadur.

Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r arolwg yn ein helpu i weld sut y gallwn ni wneud yn well, y rhannau o'r gwasanaeth sy'n gweithio'n dda a sut y gallwn newid gwasanaethau i wella gofal ar gyfer pobl â chlefyd yr arennau.

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol i wneud yn siŵr bod eich safbwyntiau chi am eich gofal wrth wraidd y prosesau gwella gwasanaethau bob amser.

### Ynglŷn â'r arolwg

Nid yw'r arolwg yn cynnwys eich enw, felly mae rhwydd hynt i chi roi atebion mor onest â phosibl. Ni chaiff y rhifau adnabod ar flaen yr holiaduron fyth eu defnyddio i'ch cysylltu chi na'ch enw chi â'ch PREM. Byddant yn ymddangos ar flaen pob PREM y byddwch yn ei lenwi yn y flwyddyn nesaf er mwyn i'r tîm dadansoddi allu gweld sut y mae atebion unigol yn newid dros amser. Mae pwyllgor moeseg wedi cymeradwyo'r broses hon: gallwn eich sicrhau na fydd unrhyw un yn gwybod beth yw eich atebion i'r arolwg.

Mae 43 o gwestiynau yn yr arolwg a bydd yn cymryd tua 10 munud i'w lenwi. Cewch ofyn i'ch gŵr neu wraig, partner, ffrind neu berthynas sydd gyda chi yn y clinig am gymorth, os bydd angen hynny arnoch. Neu gallwch fynd â'r arolwg adref gyda chi i'w lenwi a'i ddychwelyd y tro nesaf y byddwch yn ymweld. Gofynnir i chi lenwi'r arolwg PREM fwy nag unwaith.

Mae'r cwestiynau yn ymwneud â phethau fel sut y mae'r tîm yn eich trin chi, yn siarad â chi a'r cymorth y maent yn ei roi i chi. Ceir cwestiynau hefyd am yr wybodaeth sydd gennych chi am eich cyflwr a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ynglŷn â'ch gofal. Mae rhywfaint o'r cwestiynau yn ymwneud â'r clinig neu'r uned ddialysis ei hun – trefniadau, cludiant, glendid ac ati. Mae'r cwestiynau wedi eu datblygu gyda chymorth cleifion o Gyngor Cleifion Cofrestrfa Arennau y DU (UKRR), Ffederasiwn Cenedlaethol yr Arennau a Chymdeithas Cleifion Arennau Prydain.

Helpwch ni i wella gwasanaethau gofal trwy gymryd rhan, a llenwi'r arolwg a'i bostio yn y blwch a ddarperir. Gallwch ein helpu ni i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Bydd canlyniadau lleol yr arolwg yn cael eu cwblhau yn ystod gwanwyn 2017 a byddant ar gael i chi eu gweld. Bydd eich uned arennau yn rhoi gwybod i chi pan fyddant yn barod.

**Diolch am gymryd rhan a chyfrannu at y gwaith gwerthfawr hwn a fydd yn helpu gwasanaethau arennau i wella er lles pawb.**